Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Cynllun Datblygu Lleol 2 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

# Cynllunio ar gyfer Cadwraeth a Gwella Awyr Dywyll yng Nghymru Canllawiau Arfer Da

## Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer goleuo ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Ymgynghoriad Hydref 2025

Mabwysiadu XXX

Mae'r eitem hon ar gael yn Saesneg hefyd/ This item is also available in English

# Diben a chwmpas y ddogfen hon

1. Mae llawer o fanteision yn deillio o gael mynediad at awyr dywyll yn y nos a lleihau llygredd golau. Mae pobl yn ddibynnol ar gylch naturiol dydd a nos i bennu ein patrymau cysgu a'n hymddygiad pan fyddwn ar ddihun, ac mae angen awyr dywyll ar nifer o rywogaethau bywyd gwyllt er mwyn galluogi bwydo a magu effeithiol. Mae llygredd golau a achosir gan Olau Artiffisial yn y Nos (ALAN) yn gallu peri newid ymddygiad mewn pobl ac mewn bywyd gwyllt, yn ogystal â gwastraffu arian a charbon.

2. Mae goleuadau sy'n gysylltiedig â datblygiadau yn gallu cael effaith negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth a'r dirwedd. Fodd bynnag, mae lleihau llygredd golau yn aml yn syml iawn ac yn gost effeithiol ac mae llawer o fanteision yn deillio o hynny i bobl ac i fywyd gwyllt. Mae cael mynediad at awyr dywyll yn y nos hefyd yn gallu bod o fudd i iechyd corfforol a iechyd meddwl yn ogystal â gwneud mannau yn fwy diogel a darparu cyfleoedd i bobl weld y sêr heb fod llygredd golau yn llesteirio hynny.

3. Nid diben y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn ydy cael gwared ar yr holl oleuadau ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Cydnabyddir bod angen goleuadau er mwyn bodloni anghenion iechyd a diogelwch ac i ddarparu lefel o oleuo sydd yn galluogi pobl i fyw, gweithio ac ymweld â'r Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae goleuo sydd wedi'i gynllunio'n anaddas neu'n wael yn cael effaith niweidiol ar awyr y nos ac yn niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn darparu canllawiau i bawb sy'n ymwneud â chynigion ar gyfer datblygu ynglŷn â chyfrifoldebau cyfreithiol, rhwymedigaethau a chadwraeth a gwella awyr dywyll yn ystod y broses datblygu. Mae'r ddogfen yn darparu canllawiau i ddatblygwyr ynglŷn â chynllunio a chyflwyno asesiadau a chynlluniau goleuo sydd yn addas yn nhirwedd y Parc Cenedlaethol, ac i gynllunwyr ynglŷn ag asesu cynlluniau goleuo. Gellir defnyddio amodau a rhwymedigaethau cynllunio i reoli goleuo mewn caniatadau cynllunio.

# Polisi Cynllunio Cenedlaethol

4. Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan sicrhau gwytnwch ecosystemau a'r manteision sy'n deillio ohonynt. Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod targed cyfreithiol o gael o leiaf 80% o ostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. [1]

5. Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040: Mae Polisi 9- Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd yn datgan y dylai awdurdodau cynllunio nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol am eu bod yn bwysig wrth addasu i newid yn yr hinsawdd, diogelu, adfer neu greu cynefinoedd, diogelu rhywogaethau, neu ddarparu gwasanaethau ecosystemau, er mwyn sicrhau na fydd gwaith datblygu yn y dyfodol yn amharu'n ormodol arnynt; a nodi cyfleoedd lle y gellid manteisio i'r eithaf ar seilwaith gwyrdd presennol a phosibl fel rhan o greu lleoedd, lle mae angen defnyddio atebion yn seiliedig ar natur fel dull allweddol o sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a llesiant. [2]

6. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12, Chwefror 2024) Adran 6.8 yn cydnabod bod angen cydbwyso darparu golau i wella diogelwch er mwyn helpu i atal trosedd ac i alluogi gweithgareddau fel chwaraeon a hamdden i gael eu cynnal gyda'r angen i:
   - Warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol yn cynnwys bywyd gwyllt a nodweddion yr amgylchedd naturiol fel llonyddwch;
   - Cadw awyr dywyll lle bo'n briodol;
   - Atal golau llachar a pharchu amwynder y defnyddiau tir cyfagos; a
   - Lleihau'r allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â goleuadau.

   Dylid ystyried awyr dywyll wrth baratoi strategaethau a pholisïau cynlluniau datblygu ac wrth ystyried cynigion datblygu unigol.[3]

## Cyd-destun y Cynllun Datblygu Lleol

7. Mae'r Canllawiau Arfer Da yn cael eu mabwysiadu fel Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac maent yn darparu canllawiau mwy manwl ynglŷn â'r ffordd y gellir cymhwyso polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol (yn benodol Polisi 8 Nodweddion Arbennig, Polisi 14 Gwarchod a

---

[1] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[2] Diweddariad i Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040
[3] Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12

gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Polisi 9 Llygredd Golau, Polisi 10 Safleoedd a Rhywogaethau o Bwys Ewropeaidd, Polisi 11 Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol), Polisi 29 Dylunio Cynaliadwy a Pholisi 30 Amwynderau).

8. Er mai'r polisïau sydd yn y Cynllun Datblygu yn unig sydd â statws arbennig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio (h.y. at ddiben unrhyw benderfyniad a wneir yn unol â'r Deddfau Cynllunio, rhaid gwneud y penderfyniad yn unol â'r Cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn awgrymu fel arall), gellir ystyried Canllawiau Cynllunio Atodol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

9. Cynllun Partneriaeth Y Parc Cenedlaethol 2025-2029: Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal rhestr o nodweddion arbennig, yn seiliedig ar safbwyntiau pobl ac ar asesiadau ffurfiol o'r dirwedd. Mae cadwraeth a gwella nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn nod strategol i bolisi cynllunio yn y Parc Cenedlaethol. Caiff y rhestr o nodweddion arbennig ei adolygu o dro i dro ac yn 2024, gofynnwyd i bobl beth oedd y nodweddion arbennig yn eu tyb nhw. Nodwyd Awyr Dywyll gyda chydnabyddiaeth nad oes llawer o lygredd golau mewn rhan helaeth o'r Parc Cenedlaethol. Mae gan y Parc Cenedlaethol wyth Safle Darganfod Awyr Dywyll sydd yn hygyrch ac yn rhoi golygfeydd da o awyr y nos pan na fydd cymylau na lleuad. Mae Polisi L2 Cynllun Partneriaeth Y Parc Cenedlaethol 2025-2029 yn ceisio gwarchod a gwella awyr dywyll y nos.